



## Corwynt Haiyan

### Uwch gorwynt Haiyan - ail adeiladu bywydau yn Tacloban

Ar 8 Tachwedd 2013 dinistriodd un o'r corwyntoedd trofannol cryfaf i'w gofnodi ardaloedd eang yn y Pilipinas. Lladdodd uwch gorwynt Haiyan 6,300 o bobl yn y Pilipinas yn unig ac amcangyfrifodd y llywodraeth bod 1.3 miliwn o deuluoedd wedi eu heffeithio, neu 8 miliwn unigolyn.

Roedd yn amlwg bod angen ail adeiladu bywydau yn dilyn trychineb mor fawr. A chyda arbenigwyr yn darogan y bydd digwyddiadau tywydd eithafol fel hyn yn cynyddu a gwaethygu erbyn 2020, oherwydd newid hinsawdd, mae creu gwydnwch oddi fewn i'r boblogaeth yn allweddol. Eisoedd tua 20 corwynt yn effeithio'r Pilipinas pob blwyddyn. Nid yn unig y disgwylir i'r nifer gynyddu, ond disgwylir i'w natur waethygu hefyd.

### Dinas Tacloban

Porthladd yn rhanbarth Leyte yw Tacloban, wedi ei ffinio gan ddŵr ar yr ochr ddwyreiniol a deheuol yng Ngwlff Leyte a'r Môr Tawel. Dyma'r ardal a effeithiwyd waethaf gan y corwynt. Effeithiwyd y ddinas gan ymchwydd storm o tua 4 metr a chred swyddogion llywodraeth leol bod 90% o'r ddinas wedi ei dinistrio.

Trwy ei bartner UPA, mae Cymorth Cristnogol wedi bod yn cynorthwyo ail adeiladu Tacloban. Wrth geisio ymateb i'r trychineb, ceisiodd UPA wneud tri pheth: helpu pobl ail adeiladu eu bywoliaeth; eu helpu i sicrhau lloches yn y tymor byr a'r hir dymor; a'u helpu i leihau'r perygl o drychinebau yn y dyfodol.

### Ail adeiladu bywoliaeth

Y cam cyntaf yn y broses o ail adeiladu bywoliaeth y bobl oedd eu hyfforddi mewn llythrennedd ariannol. Ni chafodd yr un person ran yn rhaglenni UPA heb dderbyn yr hyfforddiant hwn yn gyntaf.



Yn dilyn hyn, fe anogwyd pobl i ffurfio grwpiau cynilo arian - grŵp o rhwng 10 a 25 o unigolion. Roedd pob aelod yn gytŷn i gynilo'r un faint pob wythnos. O'r pot hwn mae posib benthg arian i'r rhai oddi fewn i'r grŵp. Yn y gorffennol, roedd pobl yn gorfod benthg gan usurwyr, ac yn wynebu'r holl broblemau a ddaw yn sgil hynny.

Rhan allweddol o'r cynllun ydi bod digon o fwyd i bawb. Deuir a grwpiau o bobl sydd â diddordeb at ei gilydd i sefydlu rhaglen marchnata reis, ble maent yn rhannu adnoddau er mwyn prynu maint sylweddol o reis ac yna ei werthu i'r gymuned. Yn ogystal, mae gerddi trefol, prosiectau magu moch a chompost a mentrau marchnata petrol wedi eu sefydlu, gan greu incwm angenrheidiol i'r aelodau.

Yn greiddiol i waith UPA y mae'r syniad bod cymunedau yn gallu gofalu amdanynt eu hunain. Mae merched yn neilltuol wedi eu grymuso gan y syniadau hyn ac yn awr yn cynnig arweiniad oddi fewn i'w cymunedau, yn hytrach na bod yn ddibynnol ar eu gwyr fel ag yr oeddent yn y gorffennol.

### Lloches

Y cam cyntaf i gefnogi'r rhai a effeithiwyd oedd adeiladu lloches dros dro iddynt - cartrefi a oedd yn ddigon cadarn i barhau tra bod tai parhaol yn cael eu hadeiladu. Sicrhodd UPA bod 1,480 o deuluoedd yn derbyn cymhorthdal unai i godi lloches newydd neu i drin eu cartrefi presennol. Er mai lloches dros dro oedd y rhain i fod, profwyd hwy yn ddigon cryf i wrthsefyll Corwynt Ruby yn Rhagfyr 2014 - blwyddyn yn union ar ôl Haiyan.

Yr ail gam, sydd yn parhau ar hyn o bryd, yw codi tai parhaol. Un esiempl o hyn yw cymuned newydd o'r enw Pentref y Pab Francis, sydd i fod i'w chwblhau yn niwedd 2017. Bydd UPA - un o bum corff sy'n helpu gyda'r gwaith - yn cynnig hyfforddiant i'r trigolion er mwyn eu helpu i fynnu eu hawl i wasanaethau sylfaenol.

### Lleihau risg trychineb

Ar y cychwyn, cynigiodd y llywodraeth i adeiladu arglawdd mawr rhwng y môr a'r cymunedau. Ond roedd y trigolion yn ofni y byddai hyn yn dinistrio eu gallu i wneud bywoliaeth trwy bysgota. Gyda hyfforddiant UPA maent wedi gallu perswadio'r llywodraeth i atal y cynllun hwn. Mae cynlluniau eraill sydd yn fwy cynaliadwy yn cael eu gweithredu yn ei le. Er enghraifft, mae Pentref y Pab Francis wedi ei adeiladu gyda defnyddiau o ansawdd

ychydig bellter o lan y môr. Mae hyn wedi lleihau ofn y boblogaeth, gan roi hyder iddynt ar gyfer y dyfodol. Nid mater o adeiladu yn well yn unig ydyw, fodd bynnag. Mae cynlluniau megis cynilo arian a marchnata reis a mentrau eraill yn golygu bod pobl yn teimlo'n fwy gwydn yn barod.

Nid mater o leihau trychinebau yw lleihau'r risg o drychinebau, ond yn hytrach gofalu bod pobl yn gallu ymdopi pan fydd trychineb yn taro.

Mae newid hinsawdd yn golygu y bydd patrymau tywydd eithafol yn broblem gynyddol yn y Pilipinas. Fe ddigwydd trychinebau a chaiff pobl eu heffeithio. Fodd bynnag, gyda help Cymorth Cristnogol a'i bartneriaid, gellir lleddfu ychydig ar yr effeithiau, gan gynnig gobraith i'r cymunedau tlotaf.



## Gweddi

Arglwydd Dduw, wrth i newid hinsawdd effeithio patrymau tywydd ein byd, ac wrth i gorwyntoedd cryfach greu cymaint o ddinistr, diolchwn am ymdrechion ail adeiladu'r cyrff lleol hyn yn y Pilipinas sydd yn bartneriaid i Cymorth Cristnogol. Gweddiwn y bydd cymunedau lleol, trwy ymdrechion UPA, yn tyfu mewn gwydnwch ac y byddant yn gallu gwrthsefyll stormydd y dyfodol yn well. Yn enw Iesu.

Amen.